CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 7 HYDREF 2008

Presennol
Dirprwy Faer – Cyng H W Roberts

Cynghorwyr
H Edwards, R Anderson, O T Owen, W T Owen, I C Thomas, A W Bohana, G Parry, A Kirk, M Davies, R Bonner Pritchard, M Thomas, W Davies, A Roberts

Gweddïau

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Caplan Y Maer Parch G Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Maer – Cyng M P Jones, Cyng W R Owen, Cyng A Y Williams

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Anfon dymuniadau gorau i Ken a gwellhad buan. Cydymdeimlo a 'r Cyng M Davies
Bu Cyng H W Roberts i ddau ddigwyddiad ar ran Y Maer

- Bangor ar gyfer ail gyflawni rhyddfraint y Ddinas i'r Awyrlu
- Croesawu Maer newydd Landerne

3. Datgan Buddiant Personol

W T Owen – Cynllunio a trwyddedu
I C Thomas – Cynllunio, PEG, Trwyddedu
H Edwards – Cynllunio
A Bohana – Gogs

4. Eitemau Brys

- Sul Y Cofio
- Fferyllfa Y Maes
- Cais Ariannol Y Gogs
- Llythyr parthed eitem 22

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol: -

i. Cyngor, 2 Medi 2008 yn cynnwys Cofnodion ffurfiol Is Bwyllgor Adloniant 2 Medi 2008
ii. Pwyllgor Cyffredinol 16 Medi 2008
iii. Is-Bwyllgor Adloniant 24 Medi 2008
iv. Panel Cyllid a Staff 30 Medi 2008

Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Cynllunio

I ystyried y ceisiadau

Penderfynwyd
Anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod priodol

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. Undeb Amaethwyr Cymru

Plismona Cefn Gwlad

Penderfynwyd
Anfon llythyr o gefnogaeth i'r Prif Uwch Arolygydd

10. Gofal a Thrwsio Gwynedd

Adroddiad Blynyddol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

11. Unllais

Rhestr o'r cynigion ar gyfer cyfarfod blynyddol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12. H M Treasury Stock

Prynedigaeth Gorfodol

Eglurodd y clerc bod ein "stock" wedi cael ei werthu yn dilyn prynedigaeth gorfodol. Fel arfer roeddem yn derbyn siec oddeutu £33 bob Na dolig ac roedd hwnnw yn mynd i gronfa Nadolig Y Maer. Oherwydd y prynedigaeth gorfodol mae ganddom siec am £1191.13 . Ydi'n well talu hwnnw i'r Gronfa Nadolig ac i'r swyddfa rhyddhau y swm arferol yn flynyddol nes i'r arian redeg allan

Penderfynwyd

Derbyn awgrymiad y clerc a talu'r siec i gronfa Nadolig Y Maer

13. Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Lleol i Gymru

Cyfarfod 16 Hydref 2008

Penderfynwyd

Cyng Alun Roberts i fynychu ar ran y cyngor

14. Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Er gwybodaeth manylion a cofnodion

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

15. Cist Gwynedd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

16. C.T.C.

Rhaglen cyfarfod blynyddol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

17. Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth

Cynllun Cyhoeddi Enghreifftiau

Penderfynwyd

Clerc i greu dogfen erbyn y pwyllgor nesaf

18. Gwynedd ar y Cyd

Cyfarfod 21 Hydref 2008

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

19. Cyngor Gwynedd

Llythyr ymateb – er gwybodaeth

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

20. Diweddariad Cyng. A. Bohana

'National Energy Workshop'

Cyfarfod cyntaf da- gobeithion ydi i leihau "ommissions" o 3% bob blwyddyn

Mi fydd ddogfen o syniadau'r dydd yn cael ei ddosbarthu yn o fuan

Penderfynwyd

Diolch i Cyng. Bohana am ei adroddiad

21. Diweddariad Cynllun Y Maes

yn cynnwys dogfen parthed sefydlu'r grwp gweithredol

Penderfynwyd

Oherwydd bod pwysau gwaith yn drom ar yr clerc, mai Cyngor Sir fel perchnogion y tir ddylai arwain ar y pwnc yma. Clerc i lythyru, gan awgrymu enwau

22. Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru

Ymateb parthed y carchar
Nododd y clerc bod AS Hywel Williams wedi trefnu cyfarfod yma i Gynghorwyr cynghorau cymunedol lleol ar Hydref 17 am 7yh. Felly yn annog unrhyw drafodaeth i gymeryd lle yn y cyfarfod yna

Penderfynwyd
I pawb oedd ar gael fynychu y cyfarfod pwysig yma, ac yna eitem ar yr Pwyllgor nesaf (Hawl i weithredu wedi basio)

23. Trwydded Eiddo – parthed Morgan Lloyd
Gadawodd WTO, ICT a RA yr ystafell

Penderfynwyd
Llythyru yn gefnogol i opsiwn B sef dirymiad trwydded dros dro gyda amodau

24. Diweddariad o cyfarfod Unllais i Gynghorau mwy

Cyng. A. Bohana i ddiweddaru
Diwrnod diddorol iawn, siaradwyr gwadd da sef David Payne o planning portal y clerc wedi cael manylion i gysylltu fel siaradwr gwadd ac hefyd Derek Evans o swyddfa'r Archwilwyr
Simon White prif weithredwr Unllais am gysylltu a David Hanson parthed Carchar Yng Nghymru

Penderfynwyd
Diolch i Cyng A Bohana am yr adroddiad a'r clerc i gysylltu a David Payne

25. Casglu sbwriel

Angen trafod lleoliad

Penderfynwyd
O dan y ddwy bont ar gychwyn lon Eifion, clerc i benodi dyddiad

26. Cwestiynau
At pwy fedra ni droi am sefyllfa'r llyn yn y Parc?
Cyngor Gwynedd

27. Sul Y Cofio
Gofynnodd y clerc os oedd y cyngor yn dymuno mynd yn ôl i'r Barracks eleni

Penderfynwyd

I ail gychwyn y traddodiad a cyfrannu at y costau

28. Fferyllfa Y Maes

Mae cytundeb i ddarparu gwasanaeth fferyllfa "dispensing" yn unig ar gyfer y ddwy syrjeri newydd yn Noc Fictoria wedi ei gynnig i Fferyllfa'r Castell o nd mae problem. Dim ond un cytundeb sydd i'r fferyllfa newydd yn y Doc ac mae hyn yn golygu na fyddai cytundeb i barhau gyda'r fferyllfa ar Y Maes. Bydd hyn yn arwain i gau siop presennol Fferyllfa'r Castell ar Y Maes. Mae'r gwasanaeth syrjeri i fod i agor yn y Doc ar 17 Tachwedd ac felly mae y mater yma yn fater o frys oherwydd bydd penderfyniad yr awdurdodau perthnasol yn gorfod cael ei wneud yn fuan iawn.

Cynnig

Mae Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon yn gwrthwynebu y pwysau i gau Fferyllfa'r Castell ar y Maes oherwydd fod y fferyllydd wedi ennill y cytundeb i redeg y gwasanaeth "dispensing" pan fydd y ddwy syrjeri yn symud ac yn agor yn Noc Fictoria. Mae nifer o resymau am hyn gan gynnwys:

1. Pryd oedd trafodaeth frwd ynglyn a lleoli'r ddwy syrjeri yn y Doc roedd cefnogwyr yn dadlau na fyddai'r symud yn achosi siopau i gau yng nghanol y dref.
2. Mae rhwng tua 70% a 80% o brescriptiwn yn rhai ail adrodd. Os fyddai'r fferyllfa'n cau yng nghanol y dref fe fyddai y rhai sy'n cael eu moddion drwy brescriptiwn ail adrodd yn gorfod mynd i'r Doc i'w nol. Byddai hyn yn gorfodi siwrna ychwanegol o ganol y dref i'r Doc i nifer fawr o bobl. Byddai hefyd yn cynyddu'r mynd a d wad i'r gwasanaethau iechyd ar yr ail lawr yn y Doc ac yn cynyddu'r pwysau ar y grisiau ac hefyd ar y lifft. Byddai'n llawer rhwyddach i'r cleifion gael eu moddion yn y fferyllfeydd presennol, Boots a Fferyllfa'r Castell, a byddai lleihad yn y mynd a d wad diangen i'r Canolfan Iechyd yn y Doc.
3. Mae Fferyllfa'r Castell ar agor 8.30yb hyd 6.30 yp am chwe diwrnod yr wythnos o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn ac hefyd o 11.00yb hyd 2.00yp ar ddydd Sul. Ni fydd y fferyllfa "dispensing" ar agor yn y Doc ar ddydd Sadwrn na dydd Sul. Fe fydd felly yn golled fawr os fydd Fferyllfa'r Castell yn gorfod cau.
4. Fe fyddai cau Fferyllfa'r Castell yn gadael Caernarfon gydag ond un fferyllfa ar agor i'r cyhoedd ac ymwelwyr i'r dref. Gyda'r datblygiadau diweddaraf yn y dref i geisio hybu a chael mwy o dwristiaeth i Gaernarfon ni fyddai'r sefyllfa yma yn dderbyn iol.

Penderfynwyd

I anfon y cynnig yma ar frys i Brif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Lleol Gwynedd.

29. Cais Ariannol Y Gogs

Yn dilyn trafodaeth ddwys, lle nodir bod pawb yn gefnogol o'r digwyddiad ond oherwydd y swm a ofynnir amdano

Penderfynwyd

Anfon rhestr o gwestiynau i'r pwyllgor a gwahodd aelodau o'r pwyllgor Gogs i'r panel cyllid nesaf cyn gwneud unrhyw benderfyniad

Gorffennodd y cyfarfod am 8.15

Arwyddwyd..... Dyddiad.....